**Kirsty Williams AS/MS**
**Y Gweinidog Addysg**
**Minister for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/ MA-KW-0273-21

Lynne Neagle AM
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

24 Mawrth 2021

Annwyl Lynne

Fel y gwyddoch, ar 2 Mawrth, gosodais gerbron y Senedd y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r rheoliadau cysylltiedig (gweler y manylion isod):

- Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021;
- Rheoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru 2021;
- Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Pwyllgorau Rheoli etc.) (Cymru) (Diwygio) 2021;
- Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) (Diwygio) 2021;
- Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Galluedd rhieni a phersonau sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol) (Cymru) 2021.

Rwy'n falch o roi gwybod ichi fod y Senedd ddoe, ar 23 Mawrth, wedi cymeradwyo'r Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol a phob un o'r rheoliadau y mae angen ei chymeradwyaeth ar eu cyfer. Mae hwn yn gam sylweddol ymlaen o ran y diwygiadau allweddol hyn. Hoffwn ddiolch i chi a'r holl randdeiliaid sydd wedi ymgysylltu â ni, yn ystod yr ymgynghoriad a thu hwnt, i'n helpu i wneud yr is-ddeddfwriaeth hon. Mae eich ymgysylltiad a'ch gwaith caled wedi bod yn ffactorau allweddol wrth wireddu dyheadau Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Rwy'n falch o'r hyn rydym wedi'i gyflawni ac yn awyddus i sicrhau y darperir cefnogaeth er mwyn parhau i wneud cynnydd a llwyddo i roi'r system ar waith yn raddol o fis Medi 2021 ymlaen.

Nod ein dull graddol yw sicrhau bod gan bawb sy'n rhan o'r broses – ysgolion, unedau cyfeirio disgyblion, awdurdodau lleol ac eraill sy'n cefnogi dysgwyr, y cyfle i allu pontio'n raddol i'r system newydd. Yn gynharach eleni, cyhoeddais y carfanau o ddysgwyr a fydd yn pontio i'r system newydd yn y flwyddyn gyntaf. Er mwyn helpu partneriaid cyflawni i gael gwell dealltwriaeth o'r broses, bydd swyddogion yn cyhoeddi canllawiau gweithredu manwl yn fuan. Ar yr un pryd, i roi rhagor o gymorth i bartneriaid gyda'u gwaith cynllunio, bydd swyddogion hefyd yn cyhoeddi ein nodau a'n hamcanion o ran y broses ar gyfer ail a thrydedd blwyddyn y cynllun gweithredu.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN


Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy’n ymwybodol nad yw’r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn ddelfrydol o gwbl o ran gallu ein system addysg i weithredu ar ei gorau. Er hyn, rwyf hefyd yn ymwybodol o'r ymdrechion eithriadol sydd wedi'u gwneud i roi cymorth i'n dysgwyr, yn enwedig i rai o'r dysgwyr mwyaf agored i niwed, a hynny dan amgylchiadau heriol iawn.

Diolch ichi i gyd am eich cymorth dros y flwyddyn ddiwethaf yn ystod yr hyn sydd wedi bod yn gyfnod heriol iawn.

Yn gywir



**Kirsty Williams AS**
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education